

Comisiynydd Safonau

5 Ebrill 2011

Annwyl

Cais am Wybodaeth.

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 3 Mawrth 2011 pan wnaethoch ofyn,

1 A allwch ddeud wrthyf a yw swydd y Comisiynydd Safonau yn un llawn amser ynte'n rhan-amser? Os yw'n swydd ran-amser, sawl diwrnod yr wythnos?

2 Faint yw'r gyflog am y swydd?

3 A yw Andy Phillips yn dal i drin ymholiadau'r wasg ar ran yr hen WDA? Os felly, a allwch roi ei gyfeiriad e-bost i mi? Os na, a allwch roi enw a chyfeiriad e-bost swyddog y wasg sy'n gyfrifol.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am benodi Comisiynydd statudol annibynnol yn unol â Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009.

Penodwyd y Comisiynydd Safonau ar 17 Tachwedd 2010, o ganlyniad i gystadleuaeth deg ac agored. Mae'n benodiad am chwe blynedd. Mae'r Comisiynydd Safonau yn ddeiliad swydd sy'n gweithio am gyfradd o £48 yr awr, a nifer yr oriau yn ôl gofynion y swydd. Mae hefyd yn cael tâl cadw blynyddol o £5,100.

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gynhyrchu Adroddiad Blynyddol a fydd y cael ei osod gerbron y Cynulliad ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw amseriad hyn wedi ei gadarnhau hyd yma. Bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys costau llawn ei swydd am y flwyddyn honno.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am waith y Comisiynydd Safonau ar wefan y Cynulliad <http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-commissioner-standards/mem-the-commissioner.htm>

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813

E-bost/Email: Alison.Rutherford@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Rwyf eisoes wedi dweud wrthyfch nad yw'r Cynulliad yn cadw dim gwybodaeth yn ymwneud â thrydedd ran eich cais.

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn <http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm> Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad ydym wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu ein bod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae manylion am egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad wedi eu gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn <http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm> Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru